



## Llais Cymru

### Nodyn o gamau gweithredu'r Cadeirydd ar fater brys

### Recriwtio Arweinydd Ecwiti, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Heddiw, dydd Iau 14 Tachwedd 2024, rwyf wedi awdurdodi'r defnydd o ddarpariaeth Gweithredu'r Cadeirydd yn Rheolau Sefydlog Llais i gymeradwyo mater brys a fyddai fel arfer angen cymeradwyaeth y Bwrdd, ond nad oes angen galw cyfarfod ychwanegol.

Rwyf wedi cymeradwyo, mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr, recriwtio swydd ychwanegol i gyflenwad/strwythur staff Llais o arweinydd ecwiti, amrywiaeth a chynhwysiant ar agenda ar gyfer newid band 7.

Mae'r Tîm Gweithredol wedi cadarnhau bod angen y rôl barhaol i sicrhau bod Llais yn parhau i gynyddu'r ffocws ar egwyddorion ecwiti, amrywiaeth a chynhwysiant ac i lywio ein diwylliant sefydliadol a'n gwaith partneriaeth yn weithredol. Mae disgrifiad swydd ynghlwm ar gyfer y rôl a fydd yn cael ei hysbysebu.

Mewn perthynas â chyllid ar gyfer y swydd, er bod y rôl yn newydd, ni fydd yn cynyddu nifer y staff yn y sefydliad. Bydd yn disodli rôl arall yn y strwythur presennol. Mae'r Disgrifiad Swydd wedi'i werthuso'n annibynnol ym mand 7. Er bod hyn yn arwain at gostau staff uwch, rwyf wedi cael sicrwydd y gellir cynnwys hyn yng nghyllideb yr adran.

Bydd penderfyniad Gweithredu'r Cadeirydd hwn yn cael ei adrodd i gyfarfod llawn nesaf y Bwrdd ym mis Ionawr 2025.

### Cymeradwy

**Medwin Hughes** (cymeradwywyd trwy e-bost ar 14 Tachwedd 2024)

**Medwin Hughes, Cadeirydd**

.....J.A. Thomas..... Dyddiad: 15/11/24

**Alyson Thomas, Prif Weithredwr**

**Cefnogir gan (yn unol â'r rheolau sefydlog):**

*Karen Lewis* (cymeradwywyd trwy e-bost ar 19 Tachwedd 2024)

**Aelod anweithredol o'r bwrdd**

*Jason Smith* (cymeradwywyd trwy e-bost ar 20 Tachwedd 2024)

**Aelod anweithredol o'r bwrdd**

*Grace Quatoek* (cymeradwywyd trwy e-bost ar 21 Tachwedd 2024)

**Aelod anweithredol o'r bwrdd**